Cofnodion Cyfarfod 14 Hydref 2014 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
YN BRESENNOL		
Ken Brown (KB)	Daniel Williams (DW)	
Lena Ashley (LA)	Louise Hughes (LH)	
Iestyn Harris (IH)	Siân Gwenllïan (SG)	
Sarah Riley (SR)	Mair Bebb Jones (MBJ)	
George Smith (GS)		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	**SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD**	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod mis Hydref. **Ymddiheuriadau**: Gwyneth Williams, Pat Jones.	
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
2.1	Derbyniwyd ffurflen datgan diddordeb gan Siân Gwenllïan ar gyfer eitemau 9.2, 9.4 a 9.5 a Daniel Williams are item 9.6.	
3.0	**COFNODION**	
3.1	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod mis Medi. Cynigwyd bod eitem 4.1 yn cael ei newid i adlewyrchu bod bod y Cynghorydd Nerys John wedi rhoi'r Adroddiad ar yr Arolwg Tai gyda'I gilydd o'r canlyniadau a bod Miss Ashley wedi datgan bod fwy o fanylion diddorol a'r gael o fewn y canlyniadau. Newidiwyd hefyd eitem 13 i ddatgan bod y Cynghorydd Siân Gwenllïan wedi ymddiheuro. **Derbyniwyd fel rhai cywir a'u harwyddo.**	**CLERC**
4.0	**MATERION YN CODI**	
4.1	**Allotments** – Roedd George Smith am i'r aelodau ystyried allu cyflwyno rhandiroedd (allotments) ar y cae islaw'r Ganolfan Iechyd.	
4.2	**Llwybr yr Arfordir** - fel gwybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r mater hwn dywedwyd bod Cyngor Gwynedd ym mhwyllgor Cynllunio wedi penderfynu anfon ymlaen at yr Arolygiaeth Cynllunio iddynt symud ymlaen i gyflwyno'r llwybr.	
4.3	**Storfa Garddfon -**Adroddwyd fod cyfarfod wedi bod ar y safle rhwng y Bragdy, Cynghorydd Sir Siân Gwenllïan, Cynghorwyr Cymunedol Daniel Williams a George Smith. Rhoddwyd crynodeb o'r hyn drafodwyd gan y Cynghorydd Daniel Williams. Mae'r mater bellach o dan ystyriaeth gan y Bragdy.	
4.4	**Cynhadledd Unllais -** Cyflwynodd y Cynghorydd Mair Bebb-Jones adroddiad byr ar gynnig y Cyngor Cymuned i'r Gynhadledd yn Llanfair y Mualllt. Diolchodd y Cadeirydd a'i llongyfarch hi ar lwyddiant y cynnig.	
5.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD**	
5.1	Fe gyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r mater Diogelwch Tân a Larwm Tân y Neuadd.	

	Roedd mater ynglŷn â llawr y neuadd yn derbyn sylw. Gobeithir cynnal ymweliad safle rhwng y pensaer a'r adeiladwr yn fuan.	
5.2	Roddodd y Cynghorydd Daniel Williams adroddiad ar yr achlysur yn Nhrawsfynydd yn ddiweddar a'r syniad o farchnata'r neuadd ar y cyd gyda neuaddau chynghorau cymuned eraill. Roedd wedi gwneud cysylltiadau buddiol a Chanolfan Pennal a Neuadd Dyfi. Yn anffodus oherwydd anawsterau parcio'r neuadd Goffa roedd yn anodd iawn i farchnata'r neuadd ar gyfer pob math o achlysuron fel cynadleddau a chynnal priodasau. Roedd hefyd wedi gwneud cysylltiadau gyda Delyth Fôn er mwyn gweld pa fathau o gynhorthwy ariannol fyddai ar	
5.3	gael.	**DW**
5.4	Mae angen bocs cymorth cyntaf yn y gegin sydd wedi ei leoli yn yr islawr.	**DW**
5.5	Adroddwyd bod dau fath o dap ar gael i farcio'r cwrt badminton. Roedd un math yn gostus iawn tra roedd y llall gyda phris rhesymol. Cynigwyd ac eiliwyd bod y tap pris rhesymol yn cael ei archebu a'i osod. Cytunwyd yr aelodau i symud ymlaen a hyn.	
5.6	Roedd rhai "fingerguards" ar rai o'r drysau wedi torri, dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams ei fod wedi bod mewn cysylltiad â'r cwmni a'u bod yn barod i anfon rhai i wasanaeth y Neuadd yn rhad ag am ddim.	**DW**
5.7	Roedd y Clwb hwylio yn barod i osod bwrdd hysbysebu yn y cyntedd ar gyfer y neuadd.	
5.8	Mae rhai o eitemau trydanol y neuadd angen eu profi (PAT). Cynigwyd bod y Clerc yn cael gafael ar Emyr Williams sydd yn gwneud y math yma o waith.	**CLERC**
5.9	Mae angen arwydd drws tân ar ddrws olaf islawr y neuadd.	**KB**
5.10	Mae golau tu allan i'r neuadd angen sylw trydanwr.	
5.11	Dywedodd y Cynghorydd Ken Brown bod dim wedi ei wneud ar gyfer codi lechan i ddatgan cwblhau adnewyddu'r neuadd. Cynghorydd Iestyn Harris, Ken Brown a Daniel Williams i edrych i mewn i hyn. Mae angen hysbysfwrdd ar gyfer tu allan i'r neuadd hefydd - dywedodd y Clerc byddai yn gwneud ymholiadau a Chyngor Cymuned Llanberis sydd wedi gosod rhai yn ddiweddar.	**IH/DW** **CLERC**
6.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL**	
6.1	Cadarnhawyd gwariant mis Medi.	
6.2	Cynnig Ariannol Kronos - Rhoddwyd adroddiad ynglŷn â chynnig Kronos i'r Cyngor ynghyd a'r cynnig i Gyngor Tref Gaernarfon. Cynigodd y Cynghorydd Nerys John bod y Cyngor yn aros hyd	

	nes cael gwybod beth yw penderfyniad Tref Gaernarfon cyn derbyn unrhyw gynnig, cynigiodd y Cynghorydd Iestyn Harris welliant i hyn a bod ni'r cyngor yn gofyn a oes modd i'r cwmni noddi achlysur/fenter o fewn y gymuned wedi cyfnod y rhodd cymunedol ddod i ben. Penderfynwyd aros nes bydd newydd a'r penderfyniad Cyngor Tref Gaernarfon wedi dod i law.	**CLERC**
6.3	Roedd yr is-bwyllgor cyflogau wedi cael gwybodaeth ynglŷn â dyfarniad cyflogau i glercod. Penderfynwyd ar gyflog y ddau glerc a byddai'r ad-daliad yn cael ei ddangos yng nghyflog y mis canlynol.	
7.0	**GOHEBIAETH**	
8.0	**ADRODDIAD Y CLOC**	
8.1	Rhoddodd y Clerc adroddiad ynglŷn ag adroddiad Peter Wray ar y cloc. Roedd y Cyngor yn unfrydol i symud ymlaen a'r gwaith. Dywedodd y Cynghorydd Daniel fyddai gwell symud ymlaen a'r gwaith trydan cyn gynted ac mae modd. Y Clerc i gysylltu â Peter Wray.	**CLERC**
8.2	Sul y Cofio - mae angen gwahardd Traffig ar Stryd Fangor ar gyfer y gwasanaeth coffa. Y Clerc i gysylltu â'r Heddlu.	**CLERC**
9.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
9.1	Trosi Storfa/Swyddfa bresennol i uned gwyliau – Parciau Farm Griffiths Crossing LL55 1TS. - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
9.2	Dymchwel rhan o a throsi tŷ tafarn i greu 4 uned byw ynghyd a chodi 8 tŷ newydd i greu cyfanswm o 12 uned byw ar y safle (4 i fod yn fforddiadwy), creu llecynnau parcio a mynedfa gerbydlon ac i gerddwyr - Halfway House, Y Felinheli LL56 4JQ - **YSTYRIED Y CAIS MEWN CYFARFOD ARBENNIG**	
9.3	Cais olweithredol i newid defnydd rhan o adeilad i ddefnydd masnachol trwy werthu cynyrchiadau cig i'r cyhoedd. - Pant Erys Beach Road, Y Felinheli LL56 4RQ - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
9.4	Darparu estyniad to ar ffurf ffenestr gromen, darparu balcony uwchben to fflat presennol a chodi canopïau agored ar flaen a chefn yr adeilad - 24 Augusta Place, Y Felinheli LL56 4HJ.- **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
9.5	27 Brynffynnon y Felinheli LL56 4SX - **GWRTHWYNEBU**	
9.6	Cais ol –weithredol ar gyfer codi adeiladau a gosod cyfarar yn ymwneud a'r Parc Greenwood sy'n cynnwys ystafell haul, gweithdy, ardal marchogi mul, cyfarpar chwarae "wildweb", cyfarpar "sipadeedoodah, storfa goed, pentref madrach, llwybr allwybr pren a chwt adar – Greedwood	

	Forest Park Y Felinheli Gwynedd LL56 4QN – **DIM GWRTHWYNEBIAD.**	
10.0	**ADRODDIAD IS BWYLLGOR Y FYNWENT**	
10.1	Mae Mainc Coffa'r diweddar Pat White wedi ei chwblhau bellach mae angen symud y bag pridd o'i leoliad o fewn y fynwent er mwyn gallu gosod y fainc.	
11.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
11.1	Diolchodd y Cadeirydd i Sarah, Siân, Nia, Leah, Dave a Yasmin ar eu gwaith a'r lafant.	
11.2	**Bolard Maes Parcio –** Dim i adrodd gobeithio diweddaru'r sefyllfa mis nesaf.	
11.3	**Problemau Parcio -** Adroddwyd bod problemau parcio ger y goleuadau parcio yn achosi trafferthion i wasanaethau bysiau - Y Clerc i gysylltu â'r adran Draffig.	**CLERC**
12.0	**ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**	
12.1	Mae cyflwr y cysgodfanau bysiau i gydag yn foddhaol..	
12.2	Mae gordyfiant ar lwybrau ger y ffordd osgoi byth heb dderbyn sylw - y Clerc i gysylltu â Swyddog Cefnffyrdd ar y mater.	**CLERC**
12.3	Mae Allan Bowers (Tregwylan) wedi gofyn am cyfarfod a rhai aelodau'r Cyngor ar gyfer ystyried rhan o Lwybr i fewn i Hen Gei Llechi ger y Garddfon. Gobeithir cynal cyfarfod ar y safle yn fuan.	
13.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Gweler atodiad A.	
14.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
14.1	Cynllun stepiau ger y Clwb Hwylio - Nid oedd y Cynghorydd Daniel Williams a'r Cynghorydd KenBrown yn cytuno gyda'r cynllun arfaethedig oherwydd nid oedd yn gwneud synnwyr a byddai yn achosi risgiau drwy wahodd plant i ddringo'r cerrig. Y Clerc i gysylltu a Swyddog y Prosiect er mwyn rhoi gwybodaeth cysylltu y Cynghorydd Daniel Williams a'r Cyngorydd Ken Brown iddo.	**CLERC**
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 10:00 yn yr hwyr.	
Llofnod:	Dyddiad:	

Adroddiad Cynghorydd Sian Gwenllian Hydref 2014

Parcio: mae'r problemau yn parhau yng nghanol y pentref. Bydd y Cyngor Cymuned yn trafod hyn yn eu cyfarfod nesaf.

Goleuadau traffig Ffordd Caernarfon: Rwyf wedi holi Cyngor Gwynedd pryd bydd y gwaith yma wedi gorffen. Mae problemau efo craciau yn y pafin.

Cynllun Llifogydd ger y Clwb Hwylio/Cae chwarae plant: cafwyd cynllun gan Gyngor Gwynedd i atal dwr o'r Fenai rhag gor-lifo mewn stormydd. Bydd hwn yn cael ei drafod yn y Cyngor Cymuned nesaf.

Arogl drwg o'r Orsaf Bwmpio: dywed Dwr Cymru fod gwaith wedi ei wneud yn ddiweddar i gael gwared a'r broblem. Os fydd y problem yn codi eto, ffoniwch Gillian Roberts yn y Bwrdd Dwr 07920 233114

Cais Cynllunio Parc Ynni Haul, Parcia: pasiwyd y cais gan Gyngor Gwynedd. Mae rhywfaint o arian 'budd cymunedol' ar gynnig ac rwyf yn trafod hyn efo'r cwmni ac efo Cyngor Tref Caernarfon ar hyn o bryd.

Llwybr yr Arfordir drwy'r marina a Faenol: Mae'r Pwyllgor Cynllunio wedi pasio yn unfrydol i symud i'r cam nesaf ar ôl i mi gefnogi'r adroddiad yn y cyfarfod. Bydd yr holl fater yn cael ei benderfynu gan Arolygydd Cynllunio.

Half Way: Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cais cynllunio ar gyfer 12 tŷ ar y safle. Rwyf wedi trefnu cyfarfod efo swyddogion cynllunio i drafod. Mae grŵp yn y pentref yn edrych ar pa opsiynau eraill sydd ar gyfer y safle. Rhif cais: C14/0888/20/LL.

Hen Gei Llechi: Mae rhai o'r 'barriers' wedi cael eu symud ond mae'r Cyngor yn dweud fod rhaid cadw rhai er y byddan nhw yn cael eu symud i'r ochr i ffwrdd o'r ffordd ei hun. Mae cyfnod monitro stepiau Cei wedi ei ymestyn am nad yw'r Cyngor yn hapus fod yr ardal yn saff i'r cyhoedd oherwydd y crac yn y wal.

Ymgyrch Dim Peilonau: Cafodd cynnig gan y Cyngor Cymuned ei basio yn unfrydol yng nghynhadledd Unllais Cymru ar Hydref 4. Diolch i'r Cynghorydd Mair Bebb Jones am siarad yn wych yn y cyfarfod ac i Gyngor Bro Llanfairpwll am eilio. Mae'r Aelod Seneddol a minnau yn pwyso am opsiwn ceblau tan y mor ac am fwy o wybodaeth gan y Grid Cenedlaethol.

Cynllun Mapio Hanes Y Felinheli : Taith Gerdded, Gwener 24 Hydref Gelli Gyffwrdd i Penscoins (cychwyn am 10 y bore) Bore Coffi, Mercher Tachwedd 5, Felin Sgwrsio (10.30); Mae hyn yn rhan o waith y Cyngor Cymuned/Felin Sgwrsio i greu map a thaflen yn dangos llwybrau, teithiau a mannau hanesyddol yn Y Felinheli. Cawsom grant o £4,000. Os hoffech wybod mwy, galwch heibio'r Felin Sgwrsio ar ddydd Mercher (10-4) tan Dolig am sgwrs efo cyd-lynydd y prosiect Gareth Roberts. (rhif ffon Gareth 01286 872014) Bydd Gareth yn ymweld a'r ysgol a bydd arddangosfeydd yn cael eu cynnal.

Bore Coffi Mwya'r Byd (Macmillan) : llwyddwyd i godi £843.43. Bore coffi = £396.38. Rhoddion er cof am y diweddar Sian Ifor White = £447.05 Diolch i bawb

Capel Bethania: Mae'r gweinidog y Pacrh Eric Jones yn ymddeol. Bydd y gwasanaeth olaf ym Methania ar Sul, Hydref 12. Dymunwn yn dda i Eric gan ddiolch yn gynnes iddo am ei wasanaeth o dros 14 mlynedd.

Gwefan: Mae gwefan www.felinheli.org yn parhau i fod yn boblogaidd efo 58,802 *hits* ym mis Medi. Cofiwch anfon eich lluniau a newyddion am ddigwyddiadau i post@felinheli.org. Mae gwybodaeth yma am gyfarfodydd a digwyddiadau.

Be sy mlaen yn Felin? Rhai o'r digwyddiadau rheolaidd.

Felin Gylchu: Gwener a Sadwrn

Felin Sgwrsio:

Dewch i Ganu (Llun 2 p.m.)
Dysgu Cymraeg (Mawrth 8.45-10.30)
Yoga Cadair (Mawrth 11.15)
Prosiect Hanes Felinheli (10 – 4 Mercher)
Sgwrs a phaned (Iau 10)
Clwb Arlunio (Iau 2.30-4.30)
Clonc a Chyngor (Gwener 10.30-11.30)
Cawl, Cymraeg a chroeso (12.30 Gwener)
Brecwast y Dysgwyr (Sadwrn 9.30-10.30)

Neuadd Goffa: mae llawer yn digwydd yma hefyd gan gynnwys:
Bowlio: Llun a Iau am 1 (01286 673950)
Badminton : nos Lun
Clwb Ieuenctid: pob nos Fawrth (7 – 9) ,
Keep Fit: Mercher a Gwener 7 – 7.30 (07443572998)
Brownies a Guides
Manylion gan Gadeirydd y Cyngor Cymuned, Ken Brown sydd ar gael ar kennethbrown445@btinternet.com ; 07831400139.

Cymdeithas Heli'r Heulyn 2014/15 (cyfarfod yng Nghapel Bethania am 7.30)
Hydref 9 : Noson yng Nghwmni Geraint Lovgreen
Tachwedd 13: Y Sw, efo Tudor Owen
Ionawr 8: Hanes Llwyau Caru: Wyn Davies
Chwefror 12: Yncl Tom yn y Rhyfel Mawr (Hywel Roberts)